



**Cyfle I Artistiaid:**  
**Comisiwn Stiwdio Fan Geffyl**  
Peak/Copa a Gŵyl Fwyd Y Fenni  
Gorffennaf – Medi.  
Penwythnos yr Ŵyl 16 ac 17 Medi 2017

## Cyflwyniad

Mae Comisiwn Stiwdio Fan Geffyl yn brosiect partneriaeth rhwng Peak/Copa a Gŵyl Fwyd y Fenni. Rydym yn chwilio am artist gweledol neu gymhwysol proffesiynol o unrhyw ddisgyblaeth sydd wedi ei leoli yng Nghymru, i ymateb i ardal nodedig y Mynydd Du ac i themâu'r ŵyl gan gynhyrchu gwaith newydd mewn cydweithrediad â'r cyhoedd, a fydd yn cael ei greu a'i gyflwyno yn Stiwdio Fan Geffyl Peak ar y safle yn ystod penwythnos yr ŵyl (16 ac 17 Medi 2017).

**Themâu: tyfu, coginio, amaethyddiaeth, cynaliadwyedd, diwylliant bwyd, gwleidyddiaeth ac economeg cynhyrchu bwyd, atgofion unigol a chyfunol am fwyd, marchnadoedd, tyddynnod**

## Am Y Comisiwn

Bydd yn ofynnol i'r artist a gaiff ei ddedol gynhyrchu gwaith newydd mewn cydweithrediad â'r cyhoedd, fodd bynnag, nid yw'r fformat na'r deilliant wedi ei ragnodi a chaiff yr artist ei gefnogi gan staff Copa i ddod â'i gais i ben yn ystod cyfnod ymchwil a datblygu ddechrau Awst.

Mewn cysylltiad â'r artist, bydd Copa yn dylunio gweithgaredd ymgysylltu sy'n ymateb i'r comisiwn yn cynnwys sgwrs â'r artist, ymweliadau ysgolion /colegau a chynnwys digidol drwy gydol cyfnod y comisiwn.

Cafodd Stiwdio Fan Geffyl Copa ei brynu a'i addasu yn 2016 gyda chefnogaeth oddi wrth Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog. Mae'r Stiwdio Fan Geffyl yn wagle creadigol a symudol sydd wedi croesawu dros 1,300 o ymwelwyr yng Ngŵyl y Dyn Gwyrdd, Cyfoes Caerdydd, Gŵyl Wanwyn y Sioe Frenhinol a Diwrnod Agored Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yn Llangatwg.



## Am Yr Artistiaid

Mae unrhyw artist proffesiynol gweledol neu gymhwysol a leolir yng Nghymru ar unrhyw gam o'i yrfa yn gymwys i ymgeisio.

(**Nid** yw myfyrwyr israddedig na myfyrwyr mewn addysg llawn amser yn gymwys i ymgeisio)

Dylai'r artist fod yn hyderus o ran cydweithio â'r cyhoedd, yn cynnwys pobl ifanc a'r sawl sydd heb unrhyw brofiad blaenorol o'r celfyddydau cyfoes. Rhaid i'r artist fod yn gyfathrebwr clir a hyderus â'r gallu i adeiladu perthynas gyda phartneriaid y comisiwn.

Caiiff yr artist ei ddewis yn ôl

- > Cryfder ei waith hyd yma
- > Perthnasedd ei ymarfer i themâu'r wyl
- > Profiad o weithio'n llwyddiannus mewn cydweithrediad â'r cyhoedd a grwpiau cymunedol
- > Ei ddiddordeb yn y comisiwn

Bydd yn ofynnol bod yr artist yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda staff Copa (dyddiadau i'w cadarnhau mewn cydweithrediad â'r artist), i ddiweddarau am gynydd a thrafod unrhyw broblemau a allai godi. Mae'n fwriad gan Copa i ddatblygu perthynas â'r artist yn yr hir dymor.

**Rhaid** i'r artist fod ar gael yn ystod paratoi a gweinyddu penwythnos yr ŵyl (16 ac 17 Medi). Disgwylir i'r artist dreulio **o leiaf 8 diwrnod** gwaith yn gweithio ar yr ymchwil, paratoi, cyflenwi a gwerthuso'r comisiwn (o leiaf 4 dydd i'w leoli yn y Fenni).

Rhaid i'r artist a ddewisir fod yn hunangyflogedig, wedi ei yswirio ei hun ar gyfer Yswiriant Atebolrwydd y Cyhoedd ac yn meddu ar dystysgrif gyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gallwn drefnu gwiriad os yw'n angenrheidiol).

Er nad yw'n hanfodol, byddai'n ddymunol petai gan yr artist drwydded yrru lân.

Er nad yw'n hanfodol, byddai'n ddymunol petai'r artist yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl.





## Cyllideb Ac Adnoddau

Caiff Comisiwn yr Artist ei gefnogi drwy nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae'r comisiwn yn cynnig y canlynol:

- > **£2,500 ffi artist** yn cynnwys deunyddiau, costau cynhyrchu ac unrhyw addasiadau i'r Stiwdio Fan Geffyl.
- > **Hyd at £150 costau teithio**
- > **Hyd at 4x noson o lety** yn y Fenni (os yw'n ofynnol) yn ystod y cyfnod ymchwil a phen wythnos yr ŵyl.
- > **Cefnogaeth ymarferol.** Bydd staff Copa yn trefnu unrhyw addasiadau i'r Fan Geffyl ac yn rhoi cymorth o ran cyflenwi gweithgaredd ymgysylltu yn ystod penwythnos yr ŵyl.
- > **Hyrwyddo.** Bydd staff Copa yn rheoli'r ddogfennaeth, hyrwyddo a chynnwys digidol y comisiwn.



## Y Broses Ymgeisio

### I ymgeisio, anfonwch ddogfen pdf drwy e-bost gan gynnwys:

- > CV Artist (dim mwy na 2 ochr A4)
- > Llythyr ymgeisio, yn amlinellu arferion celf gyfredol, diddordeb yn y comisiwn ac unrhyw syniadau cychwynnol fel ymateb (dim mwy na 2 ochr A4)
- > Hyd at 6 delwedd o waith /prosiectau diweddar
- > Hyd at 4 dolen ar y we at enghreifftiau eraill o waith, delwedd symudol / ffeiliau clywedol ac yn y blaen.

Anfonwch eich cais drwy e-bost i: Rebecca Spooner, Cyfarwyddwr Creadigol [rebecca@artsalivewales.org.uk](mailto:rebecca@artsalivewales.org.uk) a rhoi **Comisiwn Fan Geffyl Copa** fel llinell destun e i'ch e-bost. Os yw eich dogfen pdf yn fwy na 3MB defnyddiwch wasanaeth rhannu ffeiliau fel We Transfer.

**Y dyddiad cau am ymgeisio yw 10am, ddydd Mercher 19 Gorffennaf 2017.** Caiff pob cais ei gydnabod ar ôl ei dderbyn. Caiff artist ei ddethol a'i hysbysu o hynny erbyn dydd Gwener 28 Gorffennaf.

Bydd y panel dethol yn cynnwys:

Rebecca Spooner,  
Cyfarwyddwr Creadigol,  
Peak/Copa, Arts Alive Wales

Rachel Dunlop, Rheolwr Cyfranogiad,  
Peak/Copa, Arts Alive Wales

Aine Morris, Cyfarwyddwr,  
Gŵyl Fwyd y Fenni

Adele Nozedar, Ymddiriedolwr,  
Gŵyl Fwyd y Fenni

Mae'n bosibl y cysylltir â rhestr fer o ymgeiswyr dros y ffôn neu Skype am gyfweiliad anffurfiol am wybodaeth bellach cyn bod yr artist terfynol yn cael ei ddethol.

Yn anffodus ni fydd yn bosibl i ni roi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus.





## Gwybodaeth Bellach A Chyd-Destun

### Am Peak/Copa

Menter yw Peak/Copa a ddyfeisiwyd ac a gyflenwir gan **Arts Alive Wales**, elusen addysgol gelfyddydol a leolir yng Nghrucywel, Powys. Mae Copa yn creu cyfleoedd am gelf gyfoes yn y Mynydd Du ac ar y ffin er budd artistiaid a chymunedau'r ardal a'r ymwelwyr â hi. Caiff Copa ei ysbrydoli gan yr artistiaid sy'n byw a gweithio yn y Mynydd Du a gan yr angen i gefnogi amrywiaeth ac uchelgais artistig yr ardal. Caiff Copa hefyd ei ysbrydoli gan dirlun nodweddiadol, naturiol y Mynydd Du fel adnodd unigryw, yn amgylcheddol ac yn greadigol, sy'n denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae Copa yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau yn cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Glandŵr Cymru, Ymddiriedolaeth Landmark, Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Gŵyl Fwyd y Fenni.

[www.peakart.org.uk](http://www.peakart.org.uk)  
[www.artsalivewales.org.uk](http://www.artsalivewales.org.uk)

### Am Wyl Fwyd y Fenni

Dros y 18 mlynedd diwethaf, mae Gŵyl Fwyd y Fenni wedi tyfu i fod yr ŵyl fwyd fwyaf a mwyaf hirhoedlog yng Nghymru. Mae i'r digwyddiad enw da iawn fel man i gogyddion, busnesau bwyd, newyddiadurwyr, ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd ddod at ei gilydd. Mae'r ŵyl yn adnabyddus fel digwyddiad cynhwysol a chroesawgar, sy'n darparu cyfle blasus i bobl o bob math archwilio a dysgu am fwyd. Ymfalchiâ'r ŵyl am y modd y mae'n trawsnewid y ffordd mae pobl yn meddwl am fwyd, gan herio a hyrwyddo syniadau newydd, gwthio'r ffiniau am ffordd o feddwl cyfredol, ac annog pobl i ystyried o ble y daw eu bwyd, mewn ffordd wahanol. Cafodd Gŵyl Fwyd y Fenni ei sefydlu yn 1999 gan ddau ffarmwr lleol a oedd yn ymateb i greisis BSE a diffyg hyder mewn cynnyrch Prydeinig o du'r prynwr yn sgil hynny. Yn dilyn achos o Glwy'r Traed a'r Gennau yn 2001, gwaethygodd anawsterau'r ffermwyr, gan wthio'r ŵyl yn ei blaen o ran arddangos y bwyd ardderchog oedd yn cael ei gynig yn lleol ac ymroddiad y bobl oedd yn ei gynhyrchu. Bob blwyddyn, mae'r ŵyl yn denu mwy na 30,000 o ymwelwyr i'r Fenni, gan gynhyrchu effaith i'r economi leol a amcangyfrifir i fod yn £4 miliwn.

[www.abergavennyfoodfestival.com](http://www.abergavennyfoodfestival.com)

